Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Sefydlwyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011. Mae'r Coleg yn chwarae rhan bwysig mewn cynllunio, cynnal a datblygu cyrsiau ac adnoddau cyfrwng Cymraeg ar eich cyfer chi pan fyddwch chi yn y brifysgol. **Ymaelodwch** am ddim â'r Coleg er mwyn derbyn gwybodaeth gyfredol am weithgareddau a datblygiadau'r Coleg. I wneud hyn ac i ddarllen mwy am waith y Coleg ewch i'r wefan ddwyieithog. www.colegcymraeg.ac.uk.

Ysgoloriaethau

Cyfle i chi ennill hyd at £3000 dros dair blynedd am astudio naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol! Gwnewch gais pan fyddwch ym mlwyddyn 13. Dyddiadau cau, telerau ac amodau, ffurflen gais a'r cyrsiau cymwys i gyd ar y wefan.

Profiad Gwaith a Tystysgrif Sgiliau

Fe allwch fod yn rhan o'r cynllun **Profiad Gwaith** os y cewch ysgoloriaeth gan y Coleg. Mae cyfle hefyd i dderbyn **Tystysgrif Sgiliau Iaith** pan fyddwch yn astudio mewn prifysgol yng Nghymru er mwyn cydnabod eich sgiliau iaith Gymraeg chi. Mi allwch ddangos y dystysgrif i gyflogwyr er mwyn dangos eich gallu i gyfathrebu yn hyderus ac yn broffesiynol yn y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Manylion cyswllt:

gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk/ 0844 800 7375